| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Sir |
| Dyddiad y cyfarfod | 13 Mai 2025 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol/Swyddog Monitro |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol - Pobl |
| **Awdur yr Adroddiad** | Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol – Pobl |
| **Teitl** | Penodi Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Safonau |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Penodi 2 Aelod Lleyg ar gyfer Pwyllgor Safonau'r Cyngor ar gyfer un cyfnod yn y swydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r rheoliadau llywodraethu ynghylch cyfansoddiad Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn gofyn am bwyllgor o rhwng pump a naw aelod sy'n cynnwys unigolion sy'n annibynnol o'r Cyngor, Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cyngor Tref a Chymuned.

2.2. Rhaid i fwyafrif o aelodau'r Pwyllgor Safonau fod yn Aelodau Lleyg a benodwyd gan Banel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys ddim mwy na phum aelod:

- Cadeirydd y Pwyllgor Safonau,
- lleygwr,
- aelod Cyngor Cymuned a
- hyd at ddau Gynghorydd Sir.

2.3. Mae hefyd angen i Banel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau wneud argymhelliad ar y penodiadau i'r Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Mae Panel Penodiadau Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn argymell i'r Cyngor Llawn bod Kate Robertson a Maggie Griffiths yn cael eu penodi'n Aelodau Lleyg ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Bu i Banel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau, sef y Cadeirydd, Julia Hughes, Cynghorydd Sir, Bobby Feeley, Cynghorydd Cymuned, Gordon Hughes; a'r Aelod Lleyg, Noela Jones, gyfweld ag ymgeiswyr posib ar gyfer y ddwy swydd aelod lleyg ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

4.2. Cafodd 3 ymgeisydd eu cyfweld ac roedd angen iddynt ateb nifer o gwestiynau a chafodd eu hymatebion i bob cwestiwn eu hasesu.

4.3. Yn dilyn y broses gyfweld, cytunodd Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau i gynnig y ddwy swydd aelod lleyg i Kate Robertson a Maggie Griffiths, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae Pwyllgor Safonau cwbl weithredol a chynrychioliadol ac sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn helpu i ategu'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau democrataidd.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â phenodi 2 aelod Lleyg gan eu bod yn cymryd lle 2 aelod lleyg arall y mae eu cyfnod yn dod i ben.  Mae gan aelodau lleyg hawl i gael lwfans yn unol â lefelau gorfodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (trosglwyddwyd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o 1 Ebrill 2025). Mae'r cyfraddau yn gyfradd ddyddiol ac ar gael ar eu gwefan. Bydd costau'n cael eu cynnal o fewn y gyllideb gyfredol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les a pha newidiadau sydd wedi, neu a fydd yn cael eu cyflwyno i'r prosiect neu'r ymagwedd o ganlyniad i'r asesiad?

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â'r Cyngor Llawn ynglŷn â sefydlu'r Panel Penodiadau, ac roeddent yn cytuno â hyn. Roedd y Pwyllgor Safonau'n rhan o baratoi ar gyfer y broses recriwtio.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae penodi aelod lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Safonau yn ofyniad statudol gyda chydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gosod yn allanol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Bydd y Cyngor yn torri deddfwriaeth llywodraethu'r Pwyllgor Safonau ac ni fydd ganddo bwyllgor i ddelio gydag unrhyw faterion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygiad) 2006.